


# CYLCHLYTHYR



GWANWYN 2018

## Y driniaeth gywir ar gyfer clafwr mewn defaid – PROFI AM DDIM

Rhwng y 15fed o Ragfyr 2017 a 31ain o Fawrth 2018 mae gwasanaeth am ddim ar gael i archwilio samplau gwlan defaid er mwyn adnabod clefyd ectoparasitiaid megis clafwr.

Fe fydd y gwasanaeth hwn sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn sicrhau diagnosis cywir sydd yn hollol hanfodol os am drin clefydau ectoparasitiaid mewn defaid. Mae gwella rheolaeth clafwr defaid yn un o flaenoriaethau Fframwaith Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion Cymru.



<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/wales-animal-health-welfare-framework/implementation-plan/?skip=1&lang=cy>

Mae'r arbrofi yma yn cael ei gynnal o fewn adran parasiteoleg newydd o'r APHA yng Nghaerfyrddin sydd yn arbenigo mewn gwyliadwriaeth afiechydon da byw.

Mae modd i chi fynd a samplau at eich milfeddyg fydd wedyn yn ei danfon i adran arbennig yng Nghaerfyrddin. Bydd angen danfon ychydig o wybodaeth bellach i gyd fynd gyda'r samplau er mwyn bod yn gymwys i'r gwasanaeth am ddim.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda AHPA Caerfyrddin VIC neu eich Milfeddyg.

### Newidiadau i'r cynllun FAWL

Mae newidiadau wedi eu cyflwyno i safonau cynllun FAWL i gynnal ein hymrwymiad i'r United Kingdom Accreditation Service (UKAS) am adolygiad pob tair blynedd. Daw'r safonau newydd i rym ar 1af Ebrill 2018 ond ni fydd ffermydd aelodau yn cael eu hasesu yn eu herbyn tan 1af o Orffennaf 2018. Atodwn fanylion o'r newidiadau sydd wedi eu cyflwyno i adlewyrchu'r newid mewn rheolau dros amser yn ogystal â'r angen i gynnal cysondeb gyda chynllun y Tractor Coch. Am gopi cyflawn o'r safonau newydd, ewch ar wefan WLBP ar [www.wlbp.co.uk](http://www.wlbp.co.uk).

### Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf

## RHYBUDD O GYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bydd y cyfarfod cyffredinol blynyddol ar gyfer aelodau yn cael ei gynnal yn Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth SY23 2HE ar ddydd Iau 15fed Mawrth 2018 am 2.00yp.  
Yn gywir, WG Jones, Ysgrifennydd

### AGENDA

- 1.0: Derbyn cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol
- 2.0: Derbyn adroddiad gan y Cadeirydd, Mr David Bebb Evans
- 3.0: Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn oedd yn diweddu 31 Mawrth 2017\*
- 4.0: Ethol cyfarwyddwyr – Mae David Bebb Evans a Dafydd Jones yn ymddeol yn eu tro ac yn gymwys i'w hail-ethol\*\*
- 5.0: Cymeradwyo Whittingham Riddell fel Cyfrifwyr Adrodd

\* Mae copïau o'r cyfrifon blynyddol ar gael ar wefan y gymdeithas ([www.wlbp.co.uk](http://www.wlbp.co.uk)) neu os ydych chi angen copi papur yna cysylltwch â'r swyddfa ar 01970 636688

\*\* Os ydych chi dymuno gwneud enwbiad ar gyfer y bwrdd yna a fydddech mor garedig ag anfon enw a chyfeiriad yr aelod at: WLBP Ltd, PO Box 8, Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth erbyn 14eg Mawrth 2018 wedi ei arwyddo gan 6 aelod arall o Gynhyrchwyr Cig Oen ag Eidion Cymru.

# Adroddiad y Cadeirydd – am y Flwyddyn hyd 31/03/2017

Cyflwynaf fy Adroddiad fel Cadeirydd am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2017 fel a ganlyn:

Mae ein perfformiad am y flwyddyn wedi ateb ein disgwyliadau ac rydym yn parhau i gynnal canran uchel o dda byw Cymru yn ein cynllun. Mae'n arbennig o braf nodi ein bod yn parhau i ddenu aelodau newydd i'n cynllun. Mae WLBP yn rhoi statws Gwarant Fferm i dros 7000 o ffermyr da byw a ffermyr llaeth Cymru sy'n gwerthu cig eidion i'r gadwyn gyflenwi. Mae WLBP yn hyderus bod dros 80% o holl dda byw Cymru bellach yn rhan o'r cynllun Gwarant Fferm.

Yn ystod y flwyddyn, mae WLBP wedi parhau i fuddsoddi yn ei offerynnau ar-lein sydd ar gael i bob aelod yn rhad ac am ddim. Mae adnodd mewnol yn barod i gynorthwyo unrhyw aelodau sydd am gofrestru a dechrau defnyddio'r offerynnau hyn. Mae'r adborth a geir gan aelodau sy'n defnyddio'r cyfleuster ar hyn o bryd yn hynod o bositif, gyda nifer yn dweud ei fod yn offeryn gwerthfawr wrth iddynt reoli eu ffermydd. Os oes angen gwybodaeth ar unrhyw aelod o ran sut i gofrestru ar gyfer yr offerynnau hyn, cysylltwch gyda swyddfa WLBP yn Aberystwyth. Mae'r offerynnau yn cynnig trefniadau digidol ar gyfer symudiadau anifeiliaid, cynllunio iechyd anifeiliaid, cofnodi meddyginiaethau i anifeiliaid, a chofnodion eraill ar ffermydd.

Datblygiad arall pwysig yn ystod y flwyddyn fu ein llwyddiant wrth ennill statws 'cydnabyddiaeth' gyda chyrrff rheoleiddio. Mae WLBP wedi cytuno ar statws cydnabyddiaeth gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA). Mae'r statws hwn yn werthfawr i'n haelodau gan ei fod yn golygu lleihad yn amllder arolygiadau statudol gan awdurdodau rheoleiddio. Bydd hefyd yn golygu cynnydd yn amllder arolygiadau i'r sawl nad ydynt yn aelodau oherwydd trefniadau rheoli risg cyffredin.

Mae cydnabyddiaeth gan yr Ymgyrch dros Ddefnyddio Llygodladdwyr yn Gyfrifol (CRRU) hefyd yn fanteisiol i'n haelodau,

oherwydd maent yn gallu defnyddio statws cydnabyddiaeth a pharhau i ddefnyddio llygodladdwyr heb fynychu cwrs statudol a drefnir gan CRRU. Rwy'n siŵr y cytunwch gyda fi bod trefniadau o'r fath yn fanteisiol ac yn werthfawr iawn i'n haelodau. Bydd WLBP yn parhau i bwysu am statws cydnabyddiaeth gyda chyrrff rheoleiddio eraill.

Yn dilyn penderfyniad Brexit a'r holl ansicrwydd y mae'r penderfyniad hwnnw wedi'i achosi o fewn y diwydiant, mae WLBP yn hyderus y bydd yn parhau i ddarparu manteision marchnata i'w aelodau mewn marchnadoedd targed allweddol yn ogystal â chymorth i gydymffurfio mewn amgylchedd sy'n parhau i roi mwy o bwyslais ar reoleiddio.

Yn ystod y flwyddyn hon, byddwn yn diweddarau ein safonau i sicrhau eu bod yn parhau i roi'r cyfleoedd gorau i'n haelodau yn y farchnad yn ogystal â chymorth gyda chydymffurfio, gan obeithio y gallwn sicrhau

mwy o eithriadau yn sgil ennill statws cydnabyddiaeth.

Bydd WLBP bob amser yn sicrhau bod ei safonau yn berthnasol ac yn deg i ffermio yng Nghymru a byddant yn cael eu teilwra'n benodol i gydnabod natur unigryw tirwedd Cymru, topograffi Cymru, pwysigrwydd ffermydd teuluoedd traddodiadol Cymru ac economi a diwylliant Cymru.

Hoffwn ddymuno'r gorau i fy nghyd-aelodau i'r dyfodol sydd ychydig yn ansicr, gan sicrhau pob un ohonoch y bydd WLBP yn parhau i weithio drosodd fel mudiad cydweithredol i gynhyrchwyr.



David B Evans

## Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cyf Cyfrifon Ariannol Cryno ar gyfer 31/03/2017

### CYFRIF INCWM A GWARIANT

	2017	2016
	£	£
Trosiant	1,166,792	1,167,371
Cost y Gwerthiant	(1,061,292)	(1,082,793)
Elw Crynswth	65,500	84,578
Treuliau Gweinyddol	(81,190)	(66,875)
Elw Gweithredol	24,310	17,703
Incwm Arall	2,285	3,343
Gwarged cyn treth	26,595	21,046
Treth ar y gwarged	(9,902)	(1,593)
<b>Gwarged i'r flwyddyn</b>	<b>16,693</b>	<b>19,453</b>

### MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2017

Asedau Sefydlog	102,010	84,947
Asedau Cyfredol Net	629,204	619,643
Llai Treth Ohiriedig	(11,495)	(1,593)
	<b>719,719</b>	<b>702,997</b>

### CYFALAF A REFENIW

Cyfalaf Cyfranddaliadau a Alwyd i Fyny	1,860	1,831
Gwarged Incwm a Gwarant	717,859	701,166
	<b>719,719</b>	<b>702,997</b>

## WLBP – Gwefannau Cymdeithasol



Dilynwch ni  
@WLBProducers



Hoffwch ni  
Cofnodion Fferm WLBP  
Farm Records



Instagram  
Dilynwch ni  
WLBProducers

# Dipio defaid

Yn ystod tymor yr Hydref trwyddo i'r Gwanwyn fe welir cynnydd yn achosion clafwr o fewn diadellau. Nid yn unig ydy'r clafwr yn haint sydd yn medru effeithio effeithiolrwydd busnesau trwy'r gost o driniaeth, ond hefyd materion lles, y gost llafur ac anghyfleusterau o drin y ddiadell gyfan gan ei fod yn glefyd sydd yn lledaenu. Defnyddir 44% allan o 432 o ffermydd Dip fel triniaeth ataliol i gymharu gyda 20% yn defnyddio Dectomax o ffurf chwistrelliad (Wall, Chivers, Morgan a Rose 2017).

## Cyn defnyddio dip:

Os ydych yn dewis defnyddio dip trwy chwistrellu, cawod neu dipio mewn naill ai bath sefydlog neu system symudol i drin eich defaid ar y fferm, cymerwn y cyfle yma i'ch atgoffa o'r dogfennau priodol sydd angen arnoch.

Dipio'r defaid eich hun:	Defnyddio contractiwr dipio defaid:
<b>Bwriadu prynu dip neu ddefnyddio dip?</b> Rhaid cael Tystysgrif Cymhwysedd (Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnyddio Diogel o Ddip Defaid).	<b>Pa ddogfennau sydd angen ar y contractiwr i dipio?</b> Gwiriwch fod gan y contractiwr Tystysgrif Cymhwysedd (Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnyddio Diogel o Ddip Defaid) a chymerwch rif y dystysgrif.
<b>Bwriadu rhyddhau gwastraff dip ar eich tir, e.e. trwy dirlunio?</b> Mae'n rhaid cael trwydded amgylcheddol.	<b>Bwriadu rhyddhau gwastraff dip y contractiwr ar eich tir, e.e. trwy dirlunio?</b> Mae'n rhaid i chi wneud cais am drwydded amgylcheddol.
<b>Bwriadu rhyddhau gwastraff dip oddi ar y safle?</b> Defnyddiwch gludwr gwastraff cofrestredig, eich cyfrifoldeb chi ydy i wirio bod ganddynt drwydded a thrwydded ddilys, a chymerwch nodyn trosglwyddo gwastraff.	<b>Ydy'r contractwr yn bwriadu cael gwared ar wastraff oddi ar y safle?</b> Gofynnwch: a) lle byddant yn gwaredu'r dip b) bod gan eich contractwr drwydded amgylcheddol – cymerwch rif y drwydded c) bod gan y contractwr trwydded cludo gwastraff, gofynnwch am nodyn trosglwyddo gwastraff.

## Ar ôl dipio:

Er bod dipio yn weithgaredd sydd yn digwydd unwaith y flwyddyn rhan amlaf, mae'r bath dipio yn rhan o system trin a thrafod defaid ar nifer o ffermydd ac felly mae angen sicrhau ei fod wedi gorchuddio pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Er mwyn chydymffurfio â chod y Llywodraeth i ddiogelu dŵr daear: dipio defaid, y cyfarwyddyd a roddir ganddynt yw i 'orchuddio'r bath i atal glaw, pobl neu anifeiliaid rhag syrthio pan nad yw'n cael ei ddefnyddio'. Gall bath dipio agored heb eu gorchuddio fod yn risg mawr i bobl neu anifeiliaid, ac felly hoffwn eich atgoffa i gydymffurfio efo cod y Llywodraeth er mwyn sicrhau diogelwch.

# Offeryn Ôl-droedio Carbon ac Elw Gros

Mewn cydweithrediad ag ADAS, mae WLBP ar hyn o bryd yn gweithio gyda chynhyrchwyr i gasglu data a fydd yn cael ei ddefnyddio i greu offeryn Ôl-troed Carbon ac Elw Gros Ar-lein.



Mae'r offeryn wedi'i ariannu gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru, a bydd yn rhoi'r cyfle i ffermydd Cymru asesu eu mentrau Cig Eidion, Cig Oen neu Laeth a chymharu eu hunain yn ddiennw gyda'u cyfoedion. Bydd hyn yn galluogi ffermwyr Cymru i arddangos gwelliant parhaus a sicrhau ychydig o fantais yn y farchnad i wrthbwysu'r ansicrwydd sydd o'n blaenau.

Nod ehangach y prosiect hwn yw darparu tystiolaeth o'r arferion fferm sy'n newid, a'u heffaith. Bydd hyn hefyd yn ystyriaeth wrth ddiffinio'r potensial ar gyfer gwerthoedd brand a'u rôl wrth atgyfnerthu marchnata cynhyrchion amaethyddol Cymru.

Bydd y rhai sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd yn derbyn adborth ar ddata a gasglwyd i bob math o fenter yng Nghymru.

Bydd ffermwyr Cymru sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn cyfrannu at y dystiolaeth sydd ei hangen i lywio'r dyfodol wedi Brexit.

## Llŷr Lewis: Cydlynnydd Safonau a Chofnodion Fferm



Ers dechrau Ionawr mae aelod newydd o staff wedi ymuno a ni fel Cydlynnydd Safonau a Chofnodion Fferm.

Mae Llŷr Lewis o Bonterwyd ger Aberystwyth wedi ei benodi i'r swydd ac fe fydd yn gyfrifol am hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o raglen Cofnodion Fferm. Mae Llŷr yn gweithio o'r swyddfa yn Aberystwyth.

Fe fydd Llŷr ar gael i siarad â grwpiau trafod neu gymdeithasau Tir Glas ynglŷn â rhaglen Cofnodion Fferm.

Manylion cyswllt Llŷr:  
07741 549270 neu 01970 636688  
LlyrL@wlbpc.co.uk

## Uned Cig Eidion a Defaid yn defnyddio Cofnodion Fferm WLBP



Mae Sion a Ceinwen Williams yn ffermio mewn partneriaeth gyda rhieni Sion, Alwyn a Lowri Williams yng Nghappele, Cwmpenanner, Cerrig y Drudion. Maent yn rhedeg menter cig eidion a defaid ar eu fferm ucheldirol sy'n ymestyn o 1000 troedfedd ar y buarth i 1500 troedfedd ar y mynydd.

Mae'r ddiadell yn cynnwys 800 o famogiaid Cymreig Talybont sydd wedi'u croesi'n bennaf gyda hyrddod Aberdale. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, maent wedi defnyddio hyrddod Romney ar rai o'u mamogiaid.

Mae'r ŵyn yn cael eu gorffen yn bennaf ar system bwydo ar wair, tra hefyd yn defnyddio ychydig o dir ar gyfer Plantain. Mae'r rhan fwyaf o'r ŵyn yn cael eu gwerthu'n lleol i ladd-dy lleol tra bo rhai o ŵyn y mamogiaid Aberdale yn cael eu gwerthu'n breifat.

O fewn y fenter cig eidion, mae ganddynt 145 o wartheg Stabiliser pedigri sy'n cael eu bridio a'u gwerthu fel gwartheg bridio. Mae'r lloi yn bwydo ar fwydydd cymysg ac yn cael eu pwyso bob 3-4 wythnos i fonitro'r pwysau y maent yn ei ennill. Mae stoc bridio'r fferm yn uchel ei barch ymhlith cylchoedd Stabiliser Pedigri.

Ers Ionawr 2016, mae'r teulu Williams wedi manteisio ar gyfleuster Cofnodion Fferm WLBP ar-lein sydd ar gael yn rhad ac am ddim iddynt fel aelodau o FAWL. Ar ôl cofrestru a chreu cyfrif ar-lein, mae eu dogfennau FAWL a thrawsgydymffurfio yn cael eu llenwi a'u cadw ar-lein. Mae hyn yn cynnwys eu llyfr diadell, cofrestr buches a llyfr meddyginiaeth.

Mae gan y pedwar aelod o'r teulu ap Stock Move Express ar eu ffonau, sy'n cysylltu'n uniongyrchol gyda'r cyfrif Cofnodion Fferm WLBP. Mae hyn yn eu galluogi i fewnbynnu cofnodion ar unrhyw adeg ac mewn unrhyw le.

*"Mae'r ap yn offeryn defnyddiol iawn. Mae'r ffôn gyda fi pan fyddaf allan ar y fferm, ac mae'n fy ngalluogi i gadw llygad ar bethau fel maent yn digwydd. Byddwn fel arfer yn anghofio pethau erbyn min*

*nos. Mae cwblhau gwaith papur wrth fynd ymlaen yn helpu i gadw ar ben y gwaith. Mae'n hawdd i'w ddefnyddio: os allaf i wneud, yna gall unrhyw un wneud!"*, dywedodd Alwyn.

Mae Sion yn defnyddio'r ap i fonitro perfformiad a phwysau'r lloi bob mis.

*"Rwy'n defnyddio darllynydd ffon Shearwell EID sy'n cysylltu'n uniongyrchol gyda'r ap Stock Move Express. Dyma offeryn rheoli defnyddiol iawn oherwydd gallaf fonitro perfformiad drwy gofnodi pwysau ac asesu enillion o ran pwysau. Mae hyn yn fy ngalluogi i addasu dognau bwydo'r lloi yn ôl yr angen."*

Mae Sion hefyd yn tynnu sylw at fanteision cofnodi'r feddyginiaeth y bydd yn ei brynu, a'r triniaethau a rodda:

*'Rwy'n cofnodi'r feddyginiaeth yn syth wedi ei brynu ac yn cofnodi'r driniaeth pan fyddwn yn trin anifeiliaid. Mae'n arbed amser ac yn sicrhau bod ein cofnodion wedi'u diweddar'u'n iawn.'*

Mae eu cyfrif Cofnodion Fferm WLBP yn gysylltiedig â BCMS ac EID Cymru. Mae hyn yn eu galluogi i gwblhau'r gofynion o ran symudiadau, genedigaethau (ac ati) drwy'r cyfrif ar-lein neu'r ap.

Mae Lowri Williams wedi sylwi bod natur syml y system yn caniatáu i fwy nag un aelod o'r busnes gyfrannu at y gwaith o gadw cofnodion.

*"Mae'n wych cael gwasanaeth un stop lle y gallwch gysylltu gyda BCMS ac EID Cymru, ac mae'r symudiadau yn cael eu mewnbynnu'n awtomatig i'r Gofrestr Buches a'r Llyfr Diadell."*

*Mae'r cyfleuster WLBP wedi ein helpu i symleiddio'r broses o gadw cofnodion ac mae'r teulu cyfan yn gallu chwarae rôl. Mae Ceinwen yn cofnodi perfformiad, rwyf innau'n cofrestru gwartheg ar BCMS ac mae Alwyn a Sion yn gwneud y defaid ac yn pwyso'r lloi. Mae'n rhoi rhyddid i ni allu canolbwyntio ar y busnes yn hytrach na'r gwaith papur."*

O fewn y busnes yng Nghappele, mae Cofnodion Fferm WLBP wedi bod yn hynod o fanteisiol fel offeryn cadw cofnodion a chofnodi perfformiad. Mae pawb o fewn y busnes yn gobeithio parhau i fanteisio ar y cyfleuster sydd ar gael iddynt yn sgil bod yn aelodau o FAWL.

Os hoffech gael gwybodaeth bellach am gyfleuster Cofnodion Fferm WLBP, cysylltwch â'n Cydlynwyr:

**Llyr Lewis: 07741 549270, LlyrL@wlbpc.co.uk**

**Sion Ifans: sionifans@wlbpc.co.uk**

